

Hawdd ei
Deall

Newid y rheolau i wneud adeiladau'n fwy diogel

Cafodd y ddogfen hon ei hysgrifennu gan **Lywodraeth
Cymru** Dogfen hawdd ei deall yw hon o "**Y Papur Gwyn ar
Ddiogelwch Adeiladau**"



Dyddiad: 12 Ionawr 2021

Cynnwys

Tudalen


| | |
|---|----|
| Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon..... | 3 |
| Cyflwyniad..... | 4 |
| Beth rydyn ni'n ei newid a pham? | 4 |
| Beth rydyn ni wedi ei wneud i wella pethau hyd yma | 6 |
| Sut rydyn ni'n bwriadu gwella'r problemau hyn | 7 |
| Sut y bydd codi adeiladau newydd yn dod yn fwy diogel | 9 |
| Cam 1: Gwneud pobl yn gyfrifol am ddiogelwch adeiladau | 10 |
| Cadw gwybodaeth am adeiladau sy'n cadw pawb yn ddiogel | 12 |
| Cam 2: Pan fydd pobl yn byw mewn adeilad | 14 |
| Byw mewn adeilad uchel | 16 |
| Cadarnhau bod pethau'n ddiogel | 18 |
| Rydyn ni am glywed eich barn | 19 |
| Geiriau anodd..... | 21 |

| | |
|---|---|
| | <h2>Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon</h2> |
| | <p>Bydd y ddogfen hon yn sôn am newidiadau rydyn ni am eu gwneud i ddiogelwch adeiladau.</p> |
|  | <p>Mae geiriau anodd a allai fod yn ddryslyd wedi eu hysgrifennu mewn glas.</p> |
| | <p>Y tro cyntaf y byddwch chi'n gweld pob gair anodd, bydd blwch odano. Bydd y blwch yn dweud wrthoch chi beth yw ystyr y gair.</p> |
|  <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p> | <p>Pan fyddwn ni'n dweud 'ni' yn y ddogfen, rydyn ni'n golygu Llywodraeth Cymru.</p> |
| | <p>Os bydd angen y ddogfen arnoch chi yn Saesneg, ewch i:</p> <p>https://gov.wales/safer-buildings-wales</p> |
| | <p>Gallwch hefyd fynd i'n gwefan i gael mwy o wybodaeth:</p> <p>https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru</p> |

| | |
|--|---|
| | <h2>Cyflwyniad</h2> |
| | <h3>Beth rydyn ni'n ei newid a pham?</h3> |
|  | <p>Yn 2017, fe fu farw llawer o bobl mewn tân yn Nhŵr Grenfell, a oedd yn floc o fflatiau yn Llundain.</p> |
|  | <p>Nid yw tanau fel hyn yn digwydd yn aml. Ond mae tanau yn fwy peryglus pan fyddan nhw'n digwydd mewn adeiladau lle mae llawer o bobl/teuluoedd yn byw.</p> |
| | <p>Maen nhw'n arbennig o beryglus os bydd yr adeilad yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • uchel • ac mae'n anodd i bobl ddianc ohono. |
| | <p>Ar ôl y tân, gwelso'n ni fod adeiladau eraill fel Tŵr Grenfell nad oedden nhw mor ddiogel â'r disgwyl.</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>Roedd angen i ni wneud rhywbeth i wneud yn siwr nad oedd rhywbeth fel hyn yn digwydd eto.</p> |
|  <p>Home</p> | <p>Rydyn ni'n credu y dylai pawb deimlo'n ddiogel yn eu cartref. Dyna pam rydwn ni'n gwneud newidiadau pwysig iawn i'r ffordd y mae llawer o adeiladau yng Nghymru yn cael eu hadeiladu.</p> |
|  <p>Llywodraeth Cymru Welsh Government</p> | <p>Gall Llywodraeth Cymru benderfynu pa newidiadau y byddai'n hoffi eu gwneud am ddiogelwch adeiladau.</p> |
|  | <p>Rydyn ni am glywed eich barn am y pethau rydwn ni'n ceisio eu gwneud yn well.</p> |
|  | <p>Byddwch chi'n gallu rhoi eich barn fel rhan o ymgyngoriad rhwng 12 Ionawr a 12 Ebrill 2021.</p> |

| | |
|---|---|
|  | <p>Ymgynghoriad yw pan fyddwn ni'n gofyn i'r cyhoedd roi eu barn am newidiadau rydyn ni am eu gwneud.</p> |
| | <p>Beth rydyn ni wedi ei wneud i wella pethau hyd yma</p> |
|  | <p>Rydyn ni wir am wneud cartrefi yn fwy diogel. Rydyn ni wedi gwneud rhai newidiadau positif yn barod.</p> |
|  | <p>Rydyn ni wedi gweithio gyda'r Gwasanaethau Tân, cynghorau a'r llywodraeth yn Lloegr i ddechrau gwneud rhai o'r problemau gwaethaf yn well.</p> |
|  | <p>Ond mae problemau o hyd. Ac rydyn ni'n gwybod bod mwy o waith i'w wneud o hyd.</p> |

| | |
|---|---|
| | <h2>Sut rydyn ni'n bwriadu gwella'r problemau hyn</h2> |
| | <p>Rydyn ni am wneud adeiladau yn fwy diogel drwy ddefnyddio rhywbeth o'r enw 'Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau'.</p> |
| | <div style="border: 1px solid blue; padding: 5px;"> <p>Set newydd o reolau yw Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau er mwyn gwneud adeiladau'n fwy diogel.</p> </div> |
| | <p>Bydd y rheolau hyn yn newid y ffordd y mae adeiladau yn cael eu dylunio a'u hadeiladu.</p> |
|  | <p>Bydd y rheolau hyn hefyd yn gwneud adeiladau yn fwy diogel pan fydd pobl yn byw ynddyn nhw.</p> |
| | <p>Mae'r rheolau newydd wedi cael eu rhannu yn ddau gam gwahanol.</p> |



Mae **Cam 1** ar gyfer pan gaiff adeiladau eu codi.



Mae **Cam 2** ar gyfer pan fydd pobl yn byw mewn adeiladau



Bydd y rheolau hyn yn newid pethau mewn pob adeilad pan fydd 2 **aelwyd** neu fwy yn byw mewn adeilad.



Aelwyd yw'r holl bobl sy'n byw y tu mewn i un cartref. Er enghraifft, gallai aelwyd fod yn un person, yn deulu neu'n gwpl.

Mae hyn yn golygu y bydd y rheolau yn berthnasol i lawer o wahanol fathau o adeiladau. Er enghraifft, bydd y rheolau newydd yn berthnasol i:

| | |
|---|--|
|  | <ul style="list-style-type: none"> • flociau o fflatiau a • thai sydd wedi cael eu rhannu yn 2 fflat |
| | <p>Rydyn ni am sicrhau mai ar gyfer adeiladau uchel iawn y ceir y nifer mwyaf o reolau.</p> |
| | <h2>Sut y bydd codi adeiladau newydd yn dod yn fwy diogel</h2> |
| | <p>Pan fydd pobl yn adeiladu cartrefi a fflatiau, byddwn ni'n gwneud yn siwr bod y rheolau yn glir iawn wrth esbonio sut y dylen nhw gael eu hadeiladu yn ddiogel.</p> |
|  | <p>Byddwn ni'n gwneud yn siwr y bydd gan rywun swydd fydd yn meddwl am ddiogelwch adeiladau. Bydd y person â chyfrifoldeb yn gorfod cael y sgiliau a'r profiad cywir i wneud yn siwr y gall wneud y swydd.</p> |

| | |
|---|--|
| | <h2>Cam 1: Gwneud pobl yn gyfrifol am ddiogelwch adeiladau</h2> |
| | <p>Rydyn ni am i chi ddweud pwy sy'n gyfrifol am feddwl am ddiogelwch adeilad.</p> |
| | <p>Byddwn ni'n galw'r bobl yma yn 'ddeiliaid dyletswydd.</p> |
| | <div style="border: 1px solid blue; padding: 5px;"> <p>Rhywun sy'n gofalu am yr holl wybodaeth am ddiogelwch ar gyfer adeilad yw deiliad dyletswydd.</p> </div> |
| | <p>Bydd gan y deiliad dyletswydd restr o bethau y mae'n rhaid iddo eu gwneud.</p> |
| | <p>Rydyn ni'n credu y dylai pob prosiect adeiladu gael deiliad dyletswydd, gan gynnwys:</p> |
|  | <ul style="list-style-type: none"> • rhywun sy'n cael estyniad ar ei dŷ |



Estyniad yw pan fydd mwy o ystafelloedd yn cael eu codi mewn tŷ i'w wneud yn fwy.



- Bloc o swyddfeydd yn cael ei newid yn floc o fflatiau i fyw ynddyn nhw



- bloc mawr o fflatiau



Os bydd rhywun yn **ddeiliad dyletswydd** mae'n rhaid iddo wneud yn siwr bod yr adeilad yn dilyn yr holl reolau diogelwch.

Os na fydd y rheolau hyn yn cael eu dilyn, bydd **canlyniadau** i'r **deiliad dyletswydd**.

| | |
|--|--|
| | <p>Canlyniadau yw pan fydd rhywbeth yn digwydd am fod rhywun yn gwybod rhywbeth.</p> |
|  | <p>Er enghraifft, gallai'r deiliad dyletswydd gael dirwy, gorfod cywiro unrhyw gamgymeriadau neu hyd yn oed fynd i'r carchar.</p> |
|  | <p>Os bydd adeilad yn uchel iawn, bydd y rheolau hyd yn oed yn fwy caeth.</p> |
| | <p>Cadw gwybodaeth am adeiladau sy'n cadw pawb yn ddiogel</p> |
| | <p>Pan gaiff adeilad ei ddylunio a'i adeiladu credwn y dylai pobl gadw cofnod o sut mae'r adeilad yn edrych.</p> |

| | |
|---|---|
|  | <p>Dylai'r cofnod ddweud sut mae'n edrych y tu mewn a'r tu allan. Dylai'r cofnod hefyd ddweud beth gafodd ei ddefnyddio i adeiladu'r tŷ. Er enghraifft, a oes brics y tu allan, neu wydr, neu bren.</p> |
| | <p>Wrth gael mwy o wybodaeth am adeilad, bydd yn fwy hawdd:</p> |
| | <ul style="list-style-type: none"> • cadw adeiladau a phobl yn ddiogel |
| | <ul style="list-style-type: none"> • stopio problemau rhag digwydd yn y dyfodol |
| | <ul style="list-style-type: none"> • delio ag argyfwng fel tân |
| | <p>Pan fydd yr adeilad wedi cael ei orffen, dylai'r wybodaeth yma gael ei rhoi i'r person sy'n gyfrifol am ofalu am yr adeilad pan fydd pobl yn dechrau byw ynddo.</p> |
| | <p>Bydd y wybodaeth yma yn helpu'r person hwn, y deiliad dyletswydd, i wybod sut i ofalu am yr adeilad yn iawn.</p> |
| | <p>Mae'n rhaid i'r wybodaeth hon gael ei diweddarau'n gyson.</p> |




Dylai fod yn hawdd rhoi'r wybodaeth hon i'r Gwasanaeth Tân ac Achub os oes tân yn yr adeilad. Wedyn, os bydd angen i'r Gwasanaeth Tân ac Achub wybod rhywbeth am yr adeilad, bydd yn hawdd dod o hyd i'r wybodaeth.

Er enghraifft, efallai y bydd angen i'r diffoddwyr tân wybod ble mae'r offer neu sawl fflat sydd yn yr adeilad.



Cam 2: Pan fydd pobl yn byw mewn adeilad



Mae'n bwysig bod yna rywun sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeiladau ar gael pan fydd pobl yn byw mewn adeilad.



Dylai enwau'r bobl sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeiladau, [y deiliad dyletswydd](#), fod ar gofrestr.

| | |
|---|---|
| | <p>Mae hyn yn golygu y bydd pawb yn gwybod pwy yw'r deiliad dyletswydd. Os bydd problem, byddwch chi'n gwybod pwy yw'r person â chyfrifoldeb a gallwch ddweud wrtho.</p> |
| | <p>Os nad oes rhywun wedi cael ei roi yn gyfrifol i ofalu am yr adeilad, yna perchennog yr adeilad fyddai'n gyfrifol amdano.</p> |
|  | <p>Bydd gan y deiliad dyletswydd restr o bethau mae'n rhaid iddo eu gwneud. Gallai hyn gynnwys pethau fel:</p> |
| | <ul style="list-style-type: none"> • gwneud yn siwr bod yr holl offer diogelwch fel drysau tân a larymau tân yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. |
| | <ul style="list-style-type: none"> • dweud wrth y bobl sy'n byw yn yr adeilad beth i'w wneud os bydd tân. |
|  | <p>Bydd yn rhaid i'r deiliad dyletswydd hefyd ofyn i arbenigwr archwilio'r adeilad.</p> |

| | |
|---|---|
| | <p>Bob blwyddyn, bydd yr arbenigwr yn gwneud yn siwr bod yr adeilad yn ddiogel. Caiff hyn ei wneud drwy ddefnyddio asesiadau risg.</p> |
| | <p>Asesiad risg yw pan fydd arbenigwr yn edrych i weld pa mor ddiogel yw pethau.</p> |
| | <p>Bydd yr asesiadau risg hyn yn edrych ar bethau fel diogelwch tân. Os bydd yr arbenigwr yn dod o hyd i unrhyw broblemau, bydd yn rhaid i'r person sy'n gofalu am yr adeilad eu datrys.</p> |
| | <h2>Byw mewn adeilad uchel</h2> |
|  | <p>Os ydych chi'n byw mewn adeilad uchel neu adeilad cymhleth, rydyn ni'n credu y dylech chi gael gwybodaeth am ddiogelwch yr adeilad.</p> |
| | <p>Dylai'r deiliad dyletswydd wneud yn siwr bod y bobl sy'n byw yn yr adeilad yn gwybod beth i'w wneud os bydd tân.</p> |

| | |
|--|--|
| | <p>Dylai'r deiliad dyletswydd hefyd wneud yn siwr bod y bobl sy'n byw yn yr adeilad yn gwybod sut i ddweud wrth rywun os bydd unrhyw broblemau gyda diogelwch.</p> |
| | <p>Mewn adeiladau uchel, bydd y deiliad dyletswydd yn rhoi gwybod i'r bobl sy'n byw yn yr adeilad am unrhyw broblemau.</p> |
| | <p>Os bydd yn mynd i wneud unrhyw waith i wneud pethau'n well, dylai siarad â'r bobl sy'n byw yn yr adeilad. A dylen nhw ofyn iddyn nhw beth yw eu barn.</p> |
| | <p>Ond dylai pobl sy'n byw mewn adeilad uchel hefyd helpu i gadw'r adeilad yn ddiogel. Er enghraifft, dylai'r bobl sy'n byw yn yr adeilad wneud yn siwr nad ydyn nhw'n gwneud difrod i ddrysau tân nac yn eu cadw ar agor.</p> |
| | <p>A dylai'r bobl sy'n byw yn yr adeilad adael i'r deiliad dyletswydd ddod i mewn i weld a yw'r rhan o'r adeilad maen nhw'n byw ynddi yn ddiogel.</p> |

| | |
|---|---|
| | <p>Dylai'r bobl sy'n byw yn yr adeilad hefyd gadarnhau bod pethau sydd yn eu cartrefi yn ddiogel rhag tân.</p> |
| | <p>Ni ddylai'r bobl sy'n byw yn yr adeilad wneud newidiadau i'w cartrefi sy'n golygu bod yr adeilad yn llai diogel iddyn nhw ac eraill.</p> |
| | <h2 style="text-align: center;">Cadarnhau bod pethau'n ddiogel</h2> |
|  | <p>Credwn y dylai cynghorau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub weithio gyda'i gilydd i gadarnhau bod adeiladau yn ddiogel.</p> |
|  | <p>Credwn y dylai cynghorau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub siarad â'i gilydd am yr holl adeiladau yn eu hardal.</p> |
| | <p>Os bydd y cynghorau a'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn dod o hyd i unrhyw broblemau dylen nhw roi gwybod i'w gilydd. Yna dylen nhw feddwl sut y bydden nhw'n datrys y problemau hyn gyda'i gilydd.</p> |

| | |
|---|---|
| | <p>Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, rydyn ni am wneud yn siwr bod y person a oedd i fod i sicrhau bod pethau'n ddiogel yn cael ei gosbi.</p> |
| | <p>Mae rheolau ar gael yn barod i rybuddio pobl os bydd angen i bethau newid cyn i dân go iawn ddechrau.</p> |
| | <p>Mae hyn yn golygu y caiff y bobl sy'n gyfrifol am ddiogelwch adeiladau gyfle i wneud pethau'n well.</p> |
| | <p>Os na fydd y person â chyfrifoldeb yn gwneud unrhyw welliannau, gall y cosbau fod yn fwy. Er enghraifft, gall y person a oedd i fod yn gyfrifol am yr adeilad gael ei ddirwyo neu ei garcharu.</p> |
| | <p>Rydyn ni am glywed eich barn</p> |
|  | <p>Bydd yr ymgyngoriad hwn ar agor rhwng 12 Ionawr a 12 Ebrill 2021.</p> |



Gallwch ddweud wrthym beth rydych chi'n ei feddwl am y newidiadau rydyn ni am eu gwneud. Gallwch wneud hyn drwy gwblhau'r ffurflen ymateb a'i hanfon i:



E-bost: buildingsafety@gov.wales



Neu ateb y cwestiynau ar-lein yma:
<https://llyw.cymru/adeiladau-mwy-diogel-yng-nghymru>

Byddwn ni'n defnyddio'r pethau rydych chi'n eu dweud i'n helpu i wella'r cynlluniau hyn.

Geiriau anodd

Ymgynghoriad yw pan fyddwn ni'n gofyn i'r cyhoedd roi eu barn am newidiadau rydyn ni am eu gwneud.

Set newydd o reolau yw **Cyfundrefn Diogelwch Adeiladau** er mwyn gwneud adeiladau'n fwy diogel.

Aelwyd yw'r holl bobl sy'n byw y tu mewn i un cartref. Er enghraifft, gallai aelwyd fod yn un person, yn deulu neu'n gwpl.

Rhywun sy'n gofalu am yr holl wybodaeth am ddiogelwch ar gyfer adeilad yw **deiliad dyletswydd**.

Canlyniadau yw pan fydd rhywbeth yn digwydd am fod rhywun yn gwybod rhywbeth.

Estyniad yw pan fydd mwy o ystafelloedd yn cael eu codi mewn tŷ i'w wneud yn fwy.

Asesiad risg yw pan fydd arbenigwr yn edrych i weld pa mor ddiogel yw pethau.

Daw'r lluniau yn y crynodeb hwn o Photosymbols:
<https://www.photosymbols.com>

